# Cwestiynau Ysgrifenedig y Cynulliad i'w hateb ar 7 Mawrth 2005

**R - Yn dynodi bod yr Aelod wedi datgan buddiant.**
**W - Yn dynodi bod y cwestiwn wedi'i gyflwyno yn Gymraeg.**

**(Dynodir rhif gwreiddiol y Cwestiwn mewn cromfachau)**

## *Gofyn i Brif Weinidog Cymru*

**Jonathan Morgan (Canol De Cymru):** A wnaiff y Prif Weinidog restru nifer yr ymrwymiadau yr aeth iddynt ym mhob etholaeth yn ystod y flwyddyn ddiwethaf a'r holl ymrwymiadau sydd ar y gweill tan fis Gorffennaf 2005. (WAQ41851)

## *Gofyn i'r Gweinidog dros Ddiwylliant, y Gymraeg a Chwaraeon*

**Leighton Andrews (Rhondda);** A wnaiff y Gweinidog gyhoeddi cyflwyniadau ei adran i'r ail gam o adolygiad OFCOM o Ddarlledu Gwasanaeth Cyhoeddus. (WAQ41855)

## *Gofyn i'r Gweinidog dros Ddatblygu Economaidd a Thrafnidiaeth*

**Lisa Francis (Canolbarth a Gorllewin Cymru):** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am unrhyw drafodaethau y mae wedi'u cael mewn perthynas â'r gyllideb sydd ar gael ar gyfer adeiladu 2 gilfan ar y lein o Aberystwyth i'r Amwythig yn ardal Cyffordd Dyfi. (WAQ41829)

**Nicholas Bourne (Canolbarth a Gorllewin Cymru):** Pam bod y gwaith cyfredol ar ffordd osgoi Ystalyfera, darn o ffordd sy'n 1.5 milltir o hyd, yn debygol o gymryd 16 wythnos i'w gwblhau. (WAQ41839)

**Nicholas Bourne (Canolbarth a Gorllewin Cymru):** Pa bryd y disgwylir i'r gwaith ar ffordd osgoi Ystalyfera ddod i ben. (WAQ41840)

**Nicholas Bourne (Canolbarth a Gorllewin Cymru):** Oes unrhyw gynlluniau ar y gweill i newid yr A4067 o Gyffordd 45 o'r M4 drwy Gwm Tawe yn ffordd ddeuol. (WAQ41841)

**Kirsty Williams (Brycheiniog a Sir Faesyfed):** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am y fenter Llwybrau Diogel i Ysgolion a'r posibilrwydd o'i ehangu i brosiectau refeniw. (WAQ41842)

**Kirsty Williams (Brycheiniog a Sir Faesyfed):** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am ba brosesau ymgynghori a gynhaliwyd gydag ysgolion mewn perthynas â chynigion Llwybrau Diogel i Ysgolion. (WAQ41843)

**Alun Cairns (Gorllewin De Cymru):** A wnaiff y Gweinidog gyhoeddi'r holl wybodaeth gan

gynnwys llythyrau, memos ac e-bost mewnol yn y WDA a Llywodraeth Cynulliad Cymru, yn ogystal â rhwng y cyfryw sefydliadau, sy'n ymwneud â'r amcangyfrifon a'r amcanestyniadau o'r gost o uno WDA gyda Llywodraeth Cynulliad Cymru. (WAQ41845)

## *Gofyn i'r Gweinidog dros Addysg a Dysgu Gydol Oes*

**Jonathan Morgan (Canol De Cymru):** A wnaiff y Gweinidog restru nifer yr ymrwymiadau yr aeth iddynt ym mhob etholaeth yn ystod y flwyddyn ddiwethaf a'r holl ymrwymiadau sydd ar y gweill tan fis Gorffennaf 2005. (WAQ41849)

**Leighton Andrews (Rhondda);** Pa bryd y bydd adroddiad 'Andrew Green' ar addysgu cyfrwng Cymraeg ym maes addysg uwch yn cael ei gyhoeddi. (WAQ41852)

## *Gofyn i'r Gweinidog dros yr Amgylchedd, Cynllunio a Chefn Gwlad*

**Mick Bates (Sir Drefaldwyn):** Pa gynlluniau sydd gan y Gweinidog i helpu elusennau ceffylau os bydd cynnydd yn nifer y ceffylau sy'n cael eu gollwng yn rhydd ar ôl i basbortau ceffylau gael eu cyflwyno. (WAQ41838)

## *Gofyn i'r Gweinidog dros Gyllid, Llywodraeth Leol a Gwasanaethau Cyhoeddus*

**Jonathan Morgan (Canol De Cymru):** A wnaiff y Gweinidog restru nifer yr ymrwymiadau yr aeth iddynt ym mhob etholaeth yn ystod y flwyddyn ddiwethaf a'r holl ymrwymiadau sydd ar y gweill tan fis Gorffennaf 2005. (WAQ41848)

## *Gofyn i'r Gweinidog dros Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol*

**Jonathan Morgan (Canol De Cymru):** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am nifer a dosbarthiad nyrsys sy'n arbenigo mewn niwro-oncoleg pediatrig yng Nghymru. (WAQ41837)

**Alun Cairns (Gorllewin De Cymru):** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am nifer y cleifion sy'n marw chwe mis ar ôl cael trawiad ar y galon. (WAQ41844)

**Jonathan Morgan (Canol De Cymru):** Pa ganllawiau y mae adran y Gweinidog wedi'u cyhoeddi yn y ddwy flynedd ddiwethaf ynghylch rhoi cymhelliad ar gyfer tanwario cyllidebau presgripsiynu Meddygon Teulu. (WAQ41846)

**Jonathan Morgan (Canol De Cymru):** Pa ganllawiau y mae adran y Gweinidog wedi'u cyhoeddi i fyrddau iechyd lleol yn y ddwy flynedd ddiwethaf ar gyfrifoldebau eu cynghorwyr presgripsiynu. (WAQ41847)

**Jonathan Morgan (Canol De Cymru):** A wnaiff y Gweinidog restru nifer yr ymrwymiadau yr

aeth iddynt ym mhob etholaeth yn ystod y flwyddyn ddiwethaf a'r holl ymrwymiadau sydd ar y gweill tan fis Gorffennaf 2005. (WAQ41850)

**Leighton Andrews (Rhondda);** Pa wybodaeth sydd gan y Gweinidog am yr arian y mae ymgynghorwyr sy'n gweithio yn y GIG yng Nghymru yn ei ennill o waith preifat. (WAQ41853)

**Leighton Andrews (Rhondda);** Ar gyfartaledd, beth yw'r cyflog (neu'r enillion hunangyflogedig cyfatebol) a gafodd Meddygon Teulu yng Nghymru wedi graddio, ar ôl 5 mlynedd o weithio, ar ôl deng mlynedd o weithio ac ar ôl ugain mlynedd o weithio. (WAQ41854)